RHONDDA CYNON TAF

**PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
**PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU**

Cofnodion o gyfarfod rhithwir y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd Dydd Iau, 22 Gorffennaf 2021 am 3.00 pm

## Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Pwyllgor Cynllunio a Datblygu Aelodau oedd yn bresennol:-:-

Y Cynghorydd S Rees (Cadeirydd)

Y Cynghorydd G Caple
Y Cynghorydd J Bonetto
Y Cynghorydd P Jarman
Y Cynghorydd D Grehan
Y Cynghorydd G Hughes
Y Cynghorydd W Lewis
Y Cynghorydd J Williams
Y Cynghorydd D Williams
Y Cynghorydd S Powderhill

## Swyddogion oedd yn bresennol

Mr J Bailey, Pennaeth Cynllunio
Ms L Coughlan, Cyfreithiwr
Mr A Rees, Uwch Beiriannydd

## Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol eraill oedd yn bresennol

Y Cynghorydd J Elliott

**17 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Daeth ymddiheuriad am absenoldeb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol W Owen.

**18 DATGAN BUDDIANT**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, ni wnaethpwyd unrhyw ddatganiadau mewn perthynas â'r Agenda.

**19 DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A PHENDERFYNIADAU RHEOLI DATBLYGU**

**PENDERFYNWYD** nodi y dylai Aelodau o'r Pwyllgor, wrth benderfynu materion rheoli datblygu ger eu bron, roi sylw i'r Cynllun Datblygu ac, i'r graddau y bo hynny yn berthnasol, i unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill. Rhaid i Aelodau, wrth ddod i benderfyniadau, sicrhau nad ydyn nhw'n gweithredu mewn modd sy'n anghyson â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol fel y'i hymgorfforwyd mewn deddfwriaeth gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

**20 DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015**

**PENDERFYNWYD** nodi bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)

2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gynnal datblygiadau cynaliadwy yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac i weithredu mewn modd sy'n anelu at sicrhau y caiff anghenion y presennol eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

**21 Cofnodion**

**PENDERFYNWYD** cadarnhau'r cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 29 Ebrill 2021 yn rhai cywir.

**22 CAIS RHIF: 20/1182/16**

**Datblygu pum annedd ar wahân (Cymeradwyo'r materion wedi'u cadw'n ôl yn unol â rhoi caniatâd amlinellol i gais 14/1308/13, fel yr estynnwyd gan 19/0334/15) (Derbyniwyd Cynlluniau Diwygiedig ar 23/03/2021). Hen Safle Llyfrgell Cwm-bach, Rhes Morgan, Cwm-Bach, Aberdâr**

**PENDERFYNWYD** gohirio'r cais uchod er mwyn cynnal Ymweliad Safle gan y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu, i drafod effaith y datblygiad arfaethedig ar y priffyrdd a'r materion sy'n codi mewn perthynas â hawliau tramwy.

Yng ngoleuni'r penderfyniad uchod, dywedodd y Cadeirydd wrth y sawl a oedd yn bresennol y byddai raid iddyn nhw wneud cais i annerch y Pwyllgor eto pan fyddai'r mater yn cael ei drafod, pe hoffen nhw annerch y Pwyllgor ynglŷn â'r cais yma.

**23 CAIS RHIF: 21/0717/10**

**Cynllun arfaethedig i ddymchwel rhan o'r estyniad presennol ac adeiladu estyniad llawr gwaelod y tu cefn i'r siop ac estyniad llawr cyntaf ar gyfer y fflat. 194 Stryd Fawr, Treorci**

Yn unol â'r gweithdrefnau a gafodd eu mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor Ms Ellen Lockley (Gwrthwynebydd). Cafodd hi bum munud i annerch yr Aelodau ynglŷn â'r cynnig uchod.

Amlinellodd y Pennaeth Cynllunio gynnwys dau lythyr 'hwyr' a dderbyniwyd gan gymdogion yn gwrthwynebu'r cais.

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Cynllunio y cais i'r Pwyllgor. Ar ôl trafodaeth, **PENDERFYNWYD** gwrthod y cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr - Materion Ffyniant a Datblygu.

**24 CAIS RHIF: 20/1337/10**

**Adeiladu 3 annedd ar wahân. Cadw'r annedd bresennol a gwaith cysylltiedig (Derbyniwyd Cynlluniau Diwygiedig ar 15/02/2021). BIRCHWOOD, FFORDD LLWYDCOED, LLWYDCOED, ABERDÂR, CF44 0UL**

Yn unol â chofnod 7 o'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gafodd ei gynnal ar 24 Mehefin 2021, trafododd y Pwyllgor adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a’r Gwasanaethau Democrataidd, a oedd yn amlinellu canlyniad yr ymweliad â'r safle a gafodd ei gynnal ar 7 Gorffennaf 2021 mewn perthynas â'r

cais a gafodd ei argymell i'w gymeradwyo/wrthod gan y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Materion Cynllunio.

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Cynllunio y cais i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cais, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr - Materion Ffyniant a Datblygu, yn amodol ar yr amodau a amlinellir yn yr adroddiad, yn ogystal â'r amodau ychwanegol canlynol, yn unol â chais yr Adran Rheoli Perygl Llifogydd, fel a ganlyn:

- Amod: Ni fydd unrhyw waith datblygu yn dechrau nes bod yr holl faterion perthnasol sydd wedi'u hamlinellu yn y Gofynion Cynllunio sy'n ymwneud â materion Draenio, gan gynnwys manylion draenio llawn wedi'u cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig.

  Rheswm: Sicrhau na fydd draeniad o'r datblygiad arfaethedig yn achosi nac yn gwaethygu unrhyw gyflwr anffafriol ar y safle datblygu, nac ar eiddo cyfagos, nac ar yr amgylchedd, nac ar y seilwaith presennol o ganlyniad i ddraeniad annigonol.

## 25 GWYBODAETH I AELODAU SY'N YMWNEUD Â'R CAMAU GWEITHREDU WEDI'U CYMRYD O DAN BWERAU DIRPRWYEDIG

**PENDERFYNODD** yr Aelodau dderbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio mewn perthynas â'r Penderfyniadau Apeliadau Cynllunio a Gorfodi a ddaeth i law, Cymeradwyaethau Penderfyniadau a Gwrthodiadau Dirprwyedig gyda rhesymau, Trosolwg o Achosion Gorfodi a Phenderfyniadau Gorfodi Dirprwyedig ar gyfer y cyfnod 14/06/2021 – 09/07/2021.

**Daeth y cyfarfod i ben am 3.35 pm**

**Y Cynghorydd S Rees**
**Cadeirydd.**